# Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

Cyngor Sir Ceredigion

Hawdd i Ddeall




Crynodeb a Fersiwn Hawdd ei Deall

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Mae hon yn fersiwn hawdd ei deall.

Efallai y bydd angen cymorth arnoch i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i’ch helpu.

Gall rhai geiriau fod yn anodd eu deall. Maen nhw mewn **ysgrifen goch**. Maent yn cael eu hesbonio mewn blwch o dan y gair ac yn cael eu hailadrodd ar dudalen 11.





Mae’r Strategaeth Gorfforaethol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.




Mae’r Strategaeth ar ein gwefan:

https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/strategaethau/




Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol fel print mawr, cysylltwch â:


Tîm Ymchwil a Pherfformiad
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

E-bost:PerfformiadacYmchwil@ceredigion.gov.uk

# Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion

Ni yw Cyngor Sir Ceredigion. Rydym yn darparu gwasanaethau fel casglu sbwriel, ailgylchu, a gofal cymdeithasol.


Mae ein Strategaeth Gorfforaethol yn dangos beth rydym ni eisiau ei wneud rhwng 2022 a 2027.




Rydyn ni eisiau gwella llesiant pobl.

Mae llesiant yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a'r hyn y mae'n ei wneud.

Rydym wedi gosod pedwar amcan i'n hunain i helpu i wella llesiant pobl. Dyma nhw:




- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
- Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd





Bydd ein gweithwyr a'n harian yn cael eu defnyddio yn y meysydd hyn.


## Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth





- Helpu busnesau i fod yn llwyddiannus





- Helpu pobl sydd yn cychwyn busnesau





- Creu mwy o swyddi i bobl





- Hybu cyfleoedd cyfartal o fewn swyddi





- Mynd i'r afael â thlodi yng Ngheredigion





- Rhoi blaenoriaeth i gynnyrch lleol





- Darparu mynediad gwell i’r we




- Darparu trafnidiaeth well





- Cefnogi rhieni sy’n gweithio





- Helpu pobl hŷn i ddysgu

# Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach




- Darparu gofal cymdeithasol i'r bobl sy'n byw yng Ngheredigion

> Gofal cymdeithasol yw gwasanaethau sy'n darparu cymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu, salwch ac anableddau corfforol, a salwch meddwl.





- Cyflwyno'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed





- Hybu'r Iaith Gymraeg





- Lansio Canolfannau Llesiant





- Hyfforddi a recriwtio mwy o staff gofal plant a gofal cymdeithasol




- Croesawu a chefnogi ffoaduriaid




- Cefnogi cyfleusterau iechyd meddwl cymunedol




- Helpu pobl i wneud ymarfer corff fel y gallant fod yn iach

# Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu

Ysgolion



- Buddsoddi mewn ysgolion

Siaradwyr Cymraeg




- Sicrhau bod disgyblion yn hyderus i siarad Cymraeg a Saesneg


Pobl Ifanc




- Cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion





- Prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd




- Gofal plant wedi'i ariannu i bob plentyn dwy flwydd oed





- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau Theatr Felinfach




- Gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Mae'r cwricwlwm yn set o bynciau sy'n cael eu defnyddio gan ysgolion cynradd ac uwchradd fel bod plant yn dysgu am yr un pethau.

# Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd





- Lleihau allyriadau carbon a helpu'r amgylchedd

Mae llosgi tanwyddau ffosil yn rhyddhau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr arall i mewn i'r atmosffer. Rydym yn galw'r rhain yn allyriadau carbon. Tanwyddau ffosil yw pethau fel glo, olew a nwy naturiol ac maen nhw'n fath o ynni.




- Gwella casgliadau gwastraff ac ailgylchu





- Cynyddu'r tai cymdeithasol sydd ar gael i bobl

Mae tai cymdeithasol yn dai y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu rhentu i bobl am gost is. Gall landlordiaid cymdeithasol fod yn gyngor lleol neu'n gymdeithas dai.





- Annog pobl i gadw enwau llefydd Cymraeg




- Chwilio am ddatrysiad i'r lefel uchel o ffosffadau yn Afon Teifi.

Mae ffosffadau'n cynnwys cemegion sy'n llygru dŵr.





- Chwilio datrysiadau i'r llifogydd yn Nyffryn Teifi




- Mynd ar drywydd cyllid ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol

Mae amddiffynfeydd arfordirol yn strwythurau sy'n amddiffyn yn erbyn llanw a thonnau cryf. Maent yn amddiffyn y tir rhag erydiad sy'n cael ei achosi gan donnau a'r llanw.




- Annog pobl i gerdded a seiclo

# Geiriau Anodd

## Cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yn set o bynciau sy'n cael eu defnyddio gan ysgolion cynradd ac uwchradd fel bod plant yn dysgu am yr un pethau.

## Allyriadau Carbon

Mae llosgi tanwyddau ffosil yn rhyddhau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr arall i mewn i'r atmosffer. Rydym yn galw'r rhain yn allyriadau carbon. Tanwyddau ffosil yw pethau fel glo, olew a nwy naturiol ac maen nhw'n fath o ynni.

## Gofal Cymdeithasol

Gofal cymdeithasol yw gwasanaethau sy'n darparu cymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu, salwch ac anableddau corfforol, a salwch meddwl.

## Tai Cymdeithasol

Mae tai cymdeithasol yn dai y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu rhentu i bobl am gost is. Gall landlordiaid cymdeithasol fod yn gyngor lleol neu'n gymdeithas dai.

## Ffosffadau

Mae ffosffadau'n cynnwys cemegion sy'n llygru dŵr.

## Amddiffynfeydd Arfordirol

Mae amddiffynfeydd arfordirol yn strwythurau sy'n amddiffyn yn erbyn llanw a thonnau cryf. Maent yn amddiffyn y tir rhag erydiad sy'n cael ei achosi gan donnau a'r llanw.

Diolchiadau:
Symbolau Hawdd eu Deall Hawlfraint Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Partneriaeth Leeds ac Efrog.
Graffeg Hawdd ei Deall wedi'i dylunio gan ddefnyddio adnoddau o Freepik.com.